



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o'r Rhaglen Cydwethfeydd Bwyd Cymunedol yng Nghymru

Ymchwil crynodeb

Ymchwil gymdeithasol

Rhif y ddogfen: 22/2012

Ym mis Mawrth 2010, comisiynwyd BMG Research gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r Rhaglen Cydwethfeydd Bwyd Cymunedol yng Nghymru. Nod y Rhaglen Cydwethfeydd Bwyd Cymunedol yw ei gwneud yn haws i bobl Cymru gael ffrwythau a llysiau ffres, eu hannog i fwyta mwy ohonynt a chefnogi cynhyrchwyr lleol gwledig a threfol yng Nghymru. Cefnogir y rhaglen gan yr Uned Adfywio Gwledig a'i hariannu gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae bron 300 o gynlluniau bagiau ffrwythau a llysiau yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr.

Trwy gyfrwng nifer o ddulliau ansoddol a meintiol, bu'r gwerthusiad yn asesu faint o bobl oedd yn rhan o'r cynllun, faint o ffrwythau a llysiau roeddent yn eu bwyta, pa mor effeithiol oedd y model gweithredu ac effaith y rhaglen ar y cwsmeriaid, y gwirfoddolwyr, y cyflenwyr a'r gymuned ehangach.

Y dull o werthuso

Gwnaed y gwaith ymchwil trwy wahanol ddulliau, gan gyfuno dulliau ansoddol a meintiol er mwyn cael tystiolaeth gan nifer o wahanol randdeiliaid (rheolwyr, gweithwyr datblygu, gwirfoddolwyr a chwsmeriaid) ochr yn ochr ag adolygiad o ddata monitro. Roedd y dulliau ymchwilio'n cynnwys:

- adolygiad desg o ddogfennau'r rhaglen a'r gwerthusiad cychwynnol;
- trafodaethau ansoddol gyda Rheolwr yr Uned Adfywio Gwledig a Rheolwr Cynnych Cymru;
- trafodaethau ansoddol gyda chwe Gweithiwr Datblygu Bwyd;
- cyfweiliadau ffôn ansoddol gyda 39 o gyflenwyr;
- arolwg ffôn gyda 156 o wirfoddolwyr Cydwethfeydd Bwyd;
- arolwg post a lanwyd gan 266 o gwsmeriaid bwyd, yn cynrychioli 39 o gydweithfeydd bwyd, ac
- adolygiad o ddata monitro ar y bagiau a werthwyd a'r cwsmeriaid.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Y Rhaglen Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol

Cychwynnwyd y Rhaglen Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol yn 2004 fel cynllun peilot bach mewn dwy ardal yng Nghymru. Ar adeg casglu'r data (Gwanwyn 2011), roedd 276 o gydweithfeydd bwyd ledled Cymru (115 ohonynt mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gyda 42% o'r holl gydweithfeydd bwyd mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf), ac roedd disgwyl i'r nifer godi i 315 erbyn mis Mawrth 2011.

Caiff y cydweithfeydd bwyd cymunedol eu rhedeg o nifer o ysgolion a lleoliadau cymunedol gan dimau o wirfoddolwyr, gyda chefnogaeth Rheolwr Cyffredinol yr Uned Adfywio Gwledig, Rheolwr Cynnyrch Cymru a chwech o Weithwyr Datblygu Bwyd rhanbarthol. Mae cost rhedeg y rhaglen yn £500,000 y flwyddyn. Mae cydweithfeydd bwyd cymunedol yn cyflenwi bagiau o lysiau, ffrwythau a salad am bris penodedig ac mae'r cwsmeriaid yn eu harchebu ac yn talu amdanynt wythnos ymlaen llaw. Yn ogystal, mae rhai cydweithfeydd bwyd

cymunedol yn cynnig bwydydd eraill fel wyau, cig a physgod, yn dibynnu ar y galw. Mae gan y rhaglen 75 o gyflenwyr uniongyrchol, yn cynnwys tyfwyr, cyfanwerthwyr a siopau lleol. Ar gyfartaledd, mae 1,429 o wirfoddolwyr ledled Cymru'n rhoi o'u hamser bob wythnos i helpu i redeg y cydweithfeydd bwyd cymunedol. O gymryd bod y cydweithfeydd yn agored am 45 wythnos y flwyddyn ar gyfartaledd a bod pob gwirfoddolwyr yn rhoi dwy awr a hanner o'i amser ym mhob un o'r wythnosau hyn ar gyfartaledd, mae hynny'n dod i dros 160,763 o oriau gwirfoddol y flwyddyn.

Erbyn mis Mawrth 2011, roedd 276 o gydweithfeydd bwyd cymunedol gyda chyfanswm o ychydig dros 4,420 o gwsmeriaid yr wythnos rhyngddynt, ar gyfartaledd. Roedd hyn yn amrywio o tua 10 o gwsmeriaid yr wythnos yn y rhai lleiaf i dros 30 yn rhai o'r cydweithfeydd mwyaf a hynaf.

Yn ôl ffigurau Chwefror a Mawrth 2011, gwerthir 6,800 o fagiau yr wythnos ar gyfartaledd. O gymryd bod pob bag yn costio £3 ar

gyfartaledd, mae hyn yn golygu bod gwerth tua £20,400 yn cael ei werthu mewn wythnos. O gymryd bod y cydweithfeydd yn rhedeg am 45 wythnos y flwyddyn ar gyfartaledd, mae hyn yn creu dros £918,000 o incwm i fusnesau Cymru, sy'n golygu bod tua £1.84 yn cael ei greu am bob £1 a gaiff ei gwario.

Swyddogaeth yr Uned Adfywio Gwledig

Mae'r Uned Adfywio Gwledig yn darparu Rheolwr Cyffredinol, Rheolwr Cynnyrch Cymru a chwe Gweithiwr Datblygu Bwyd i gefnogi rhaglen y cydweithfeydd bwyd. Un rhan bwysig o'i gwaith yw canfod a datblygu safleoedd newydd ar gyfer cydweithfeydd bwyd cymunedol a meithrin a chynnal perthynas gyda gwirfoddolwyr, cyflenwyr, a grwpiau a mudiadau cymunedol lleol. Roedd cefnogaeth gref gan y Gweithwyr Datblygu Bwyd yn nyddiau cynnar sefydlu'r cydweithfeydd yn arbennig o bwysig.

Weithiau, roedd yn anodd iawn canfod lleoedd addas i'r cydweithfeydd bwyd cymunedol eu

defnyddio am ddim ac, yn aml, roedd angen cymorth y Gweithwyr Datblygu Bwyd ar y gwirfoddolwyr i ddod o hyd i safleoedd addas a thrafod telerau defnyddio.

Yn ogystal â'r cymorth wyneb yn wyneb, roeddent yn cadw mewn cysylltiad dros y ffôn, a'r mater yr oedd angen ei ddatrys amlaf oedd bod angen bagiau ychwanegol i'r cwsmeriaid gario'r bwyd adref ynddynt. Teimlid yn aml nad dyma oedd y defnydd gorau o amser y Gweithwyr Datblygu Bwyd a bod angen ffordd arall o ddatrys y mater. Yn ogystal, roedd angen sicrhau'n barhaus bod y gwirfoddolwyr yn deall pwysigrwydd model gweithredu cost-niwtral ar gyfer y cydweithfeydd bwyd.

Roedd y ceisiadau ad-hoc am gymorth yn tueddu i ymwneud â materion na allai'r gwirfoddolwyr eu datrys ynghylch cyflenwyr (er enghraifft, problemau ansawdd parhaus neu fod angen cyflenwr newydd), neu'n geisiadau am gymorth gyda gweithgareddau hyrwyddo/marchnata. Byddai'n dda gan y Gweithwyr Datblygu Bwyd gael rhagor o

amser i gychwyn ac ehangu cydweithfeydd, yn enwedig mewn ysgolion neu ganolfannau eraill lle byddai modd dod i gysylltiad â theuluoedd â phlant.

Golwg o Safbwynt Gwirfoddolwyr Cydweithfeydd Bwyd

Mae cydweithfeydd bwyd cymunedol yn dibynnu ar wirfoddolwyr i'w rhedeg. Holwyd 156 o wirfoddolwyr 'arweiniol' dros y ffôn a chafwyd trafodaethau ansoddol gyda gwirfoddolwyr ar ymweliadau â chwech o wahanol gydweithfeydd bwyd cymunedol er mwyn clywed am eu profiadau a'u barn.

Menywod 40 oed neu drosodd yw'r rhan fwyaf o'r gwirfoddolwyr. Mae ychydig dros dair rhan o bump ohonynt mewn gwaith, un rhan o bump wedi ymddeol a'r gweddill heb fod mewn gwaith neu'n gofalu am ddibynyddion. Yn gyffredinol, roedd y gwirfoddolwyr wedi bod wrthi ers peth amser ac roeddent yn bwriadu dal ati. Byddai pawb, bron, yn annog pobl eraill i wirfoddoli. Serch hynny, soniodd llawer am anawsterau recriwtio a

chadw gwirfoddolwyr eraill a chwsmeriaid, a dywedwyd bod problemau'n codi weithiau â'r cyflenwad.

Y prif resymau dros ddechrau gwirfoddoli oedd dymuniad i wneud lles i'r gymuned, annog pobl i fyw'n iach a chefnogi'r diwydiant bwyd lleol. Roedd cefnogi gweithgareddau Ysgolion Iach yn bwysig iawn i gydweithfeydd mewn ysgolion, ynghyd â ffactorau eraill fel Eco-ysgolion a chefnogi fframwaith arolygu Estyn. Roedd y gwirfoddolwyr o'r farn bod rhagor o ffrwythau a llysiau'n cael eu bwyta a rhagor o gynnyrch lleol yn cael ei brynu o ganlyniad i sefydlu'r cydweithfeydd bwyd cymunedol.

Roedd y gwirfoddolwyr yn teimlo'u bod nhw ar eu hennill mewn nifer o ffyrdd eraill hefyd (yn annisgwyl ar y cyfan). Roeddent wedi cael dysgu rhywbeth newydd, cyfarfod a phobl newydd a dysgu sgiliau newydd (ac roedd hynny'n ei gwneud yn haws i rai i gael swyddi). Teimlai'r gwirfoddolwyr bod y cydweithfeydd bwyd cymunedol yn cynnig gwerth ardderchog am arian yn ogystal â'u bod yn annog pobl i fwyta'n iach a chefnogi'r gymuned leol.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r cydweithfeydd bwyd cymunedol yn cydreddeg â gweithgareddau eraill ond awgrymwyd y byddai modd iddynt wneud hynny, yn enwedig os ydynt mewn lleoliadau cymunedol.

Roedd rhai cydweithfeydd yn cydreddeg â gweithgareddau fel addysg oedolion, lle i fynd am banded, gweithgareddau iechyd, undebau credyd a chlybiau cinio. O ran sicrhau parhad y cydweithfeydd bwyd cymunedol, bu'r gwirfoddolwyr yn gweithio'n galed i geisio cadw cwsmeriaid trwy ddsbarthu taflenni/posteri, rhoi gwybodaeth ar fwyta'n iach, ryseitiau ac ati.

Awgrymodd y gwirfoddolwyr fod angen mwy o gymorth ynglŷn â sut i hysbysebu a hyrwyddo cydweithfeydd.

Roeddent yn llawn canmoliaeth i'r Gweithwyr Datblygu Bwyd am eu cefnogaeth ond mae'r ffaith eu bod mor fodlon â pharodrwydd y gweithwyr i helpu a faint o help yr oeddent yn ei gael yn awgrymu efallai bod rhai cydweithfeydd yn dibynnu gormod arnynt.

Golwg o Safbwynt Cwsmeriaid y Cydweithfeydd Bwyd

Anfonwyd holiadur byr i'w ddychwelyd trwy'r post at 39 o'r cydweithfeydd bwyd cymunedol mwyaf (ag 20+ o gwsmeriaid yr wythnos) ym misoedd Gorffennaf ac Awst (ni anfonwyd nhw i ysgolion oherwydd y gwyliau). Cafwyd holiaduron 266 o gwsmeriaid yn ôl wedi'u llenwi (o 39 o gynlluniau, ym mhob rhanbarth). Menywod oedd y rhan fwyaf a atebodd (pedair o bob pump) a'r mwyafrif naill ai'n gweithio llawn amser neu wedi ymddeol (dwyr ran o bump yn y naill achos a'r llall).

Rydym yn sylweddoli bod rhai anfanteision i ddefnyddio arolwg trwy'r post e.e. gallai'r cyfraddau ymateb fod yn isel a gallai fod tuedd i ddenu ymatebwyr â barn gref; serch hynny, o ystyried yr amser a'r adnoddau oedd ar gael, penderfynwyd mai'r dull hwn oedd y mwyaf addas i wneud yr ymchwil.

Soniodd yr ymatebwyr am nifer o resymau dros ddefenyddio'r cydweithfeydd bwyd cymunedol.

Cefnogi cymunedau lleol a chyfle i gael ffrwythau a llysiau rhad oedd prif resymau'r rhan fwyaf o'r cwsmeriaid. Roedd y ffaith bod y cynnyrch yn dod oddi wrth fusnesau a ffermwyr lleol yn rheswm pwysig dros ddefnyddio'r cydweithfeydd bwyd cymunedol hefyd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (pedair rhan o bump) eu bod yn bwyta'n iachach ers iddynt ddechrau defnyddio'r gydweithfa a dywedodd tri chwarter yr ymatebwyr bod eu teuluoedd yn bwyta'n iachach hefyd. Dywedodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio llai o brydau parod/sawsiau parod ac ati ers iddynt ddechrau defnyddio'r cydweithfeydd bwyd cymunedol.

Mae'r cwsmeriaid yn deyrngar iawn – dywedodd bron bob un o'r ymatebwyr y byddai'n defnyddio'r gydweithfa eto. Dywedodd yr ymatebwyr mai cynnyrch o ansawdd gwael oedd y prif reswm a allai beri iddynt beidio â defnyddio'r cydweithfeydd. Fodd bynnag, roedd y gwirfoddolwyr o'r farn mai am resymau personol yn bennaf yr oedd pobl yn rhoi'r gorau

i ddefnyddio'r cydweithfeydd e.e. eu bod yn symud o'r ardal neu'n colli eu hiechyd yn hytrach nag am resymau'n ymwneud â'r cydweithfeydd eu hunain.

Golwg o Safbwynt Cyflenwyr y Cydweithfeydd Bwyd

Mae dros 75 o gyflenwyr wedi cymryd rhan yn y rhaglen cydweithfeydd bwyd ac fe holwyd 41 ohonynt (yn cynnwys dau sydd wedi gadael y rhaglen). Mae'r cyflenwyr yn amrywio o ran maint, o sefydliadau mawr iawn sydd â throsiant o filiynau o bunnau, i gyflenwyr bychan, annibynnol sy'n cael refeniw o tua £30K y flwyddyn. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyflenwyr mai elfen fechan iawn o'u busnes oedd gweithio gyda'r cydweithfeydd. Roedd llawer ohonynt yn cyflenwi 1-5 cydweithfa. Dim ond ychydig a ddywedodd bod hyn i'w gyfrif am dros 10 y cant o'u busnes a'u bod yn cyflenwi 10 neu fwy o gydweithfeydd. Fodd bynnag, mae rhai o'r cyflenwyr mwyaf yn cydweithio â dros 50 o gydweithfeydd.

Daeth y cyflenwyr i wybod am y rhaglen mewn nifer o wahanol

ffyrdd e.e. trwy'r Uned Adfywio Gwledig (yn cynnwys gwaith allgymorth Rheolwr Cynnyrch Cymru), wrth i wirfoddolwyr gysylltu â nhw, trwy gydgysylltwyr Cymunedau yn Gyntaf ac wrth sgwrsio â chyflenwyr eraill.

Roedd y math o gynnyrch oedd yn cael ei gyflenwi i'r cydweithfeydd yn amrywio yn ôl y pris a faint ohono oedd ar gael ac roedd y cyflenwyr yn dweud eu bod yn ceisio rhoi'r gwerth gorau am arian. Roedd y cyflenwyr i gyd yn cael peth o'u cynnyrch gan gyflenwyr trydydd parti ac roedd tua thraean o'r cyflenwyr yn cynhyrchu eu ffrwythau a llysiau eu hunain hefyd. Yn ôl y cyflenwyr, ychydig iawn o'r cynnyrch sy'n dod o Gymru gan nad oes llawer o gynnyrch yn cael ei dyfu yng Nghymru, yn enwedig ffrwythau.

Mae'r cyflenwyr yn gallu ymdopi â'r galw gan y cydweithfeydd ac awgrymwyd y byddai'n fantais fawr cael rhagor o gwsmeriaid.

Trosolwg o'r canlyniadau

Mae bron 4,500 o gwsmeriaid yn prynu bagiau o ffrwythau, llysiau

neu salad bob wythnos gan gydweithfeydd bwyd cymunedol. Mae gwirfoddolwyr, cwsmeriaid a'u teuluoedd yn bwyta rhagor o ffrwythau a llysiau ffres o ganlyniad i'r cydweithfeydd bwyd cymunedol. Daeth pobl i ymwneud mwy â'r gymuned leol ac i gymdeithasu mwy wrth brynu cynnyrch gan y cydweithfeydd bwyd cymunedol, ac wrth wirfoddoli.

Yn ogystal â chefnogi gweithgareddau lleol, roedd y gwirfoddolwyr yn dweud eu bod nhw wedi elwa o'r rhaglen, a rhai wedi dysgu sgiliau a fyddai'n ei gwneud yn haws cael swydd. Yn ogystal, mae'r rhaglen wedi galluogi cydweithfeydd bwyd lleol i feithrin cysylltiad â gweithgareddau eraill (fel ysgolion iach, digwyddiadau addysg ac achlysuron cymdeithasol) ac mae wedi cyflwyno gweithgareddau a chyfleoedd newydd i ganolfannau cymunedol.

Mae'r cymunedau eu hunain wedi elwa trwy werthu mwy o gynnyrch lleol a chyflwyno cyflenwyr newydd fel rhai sy'n darparu cig a physgod. Roedd cydweithfeydd mewn ysgolion, yn arbennig, yn hybu

sgiliau llythrennedd, rhifeg a menter.

Mae'r cydweithfeydd bwyd cymunedol yn cynhyrchu dros £918,000 o fusnes bob blwyddyn, trwy werthu 6,800 o fagiau bob wythnos ar gyfartaledd. Er mai rhan fechan o fusnes rhai cyflenwyr oedd hi, i eraill roedd (neu gallai dyfu) yn fwy o lawer.

Casgliadau ac argymhellion

I gloi, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cydweithfeydd bwyd cymunedol wedi llwyddo i ychwanegu at y ddarpariaeth o ffrwythau a llysiau ffres mewn cymunedau ar lefel leol, gan sicrhau bod cynnyrch o safon uchel, cost isel, sy'n rhoi gwerth am arian ac sy'n gynnyrch lleol lle bo modd, ar gael yn hwylus.

Awgryma'r dystiolaeth hefyd bod y manteision yn mwy na gwneud iawn am gostau rhedeg y rhaglen. Fodd bynnag, mae manteision cydweithfeydd bwyd cymunedol yn ehangach o lawer na sicrhau bod ffrwythau a llysiau ar gael yn fwy hwylus a bod mwy ohonynt yn cael eu bwyta. Mae'r cydweithfeydd yn codi proffil y gymuned, yn meithrin

gallu yn y gymuned, yn datblygu rhwydweithiau a chydlyniant cymdeithasol, ac yn dysgu pobl am fwydydd iachus yn ogystal â chynnig cyfle newydd i ddatblygu addysg a sgiliau. Dyma rai argymhellion er mwyn sicrhau eu bod yn dal i lwyddo:

- Parhau â swyddi allweddol Rheolwr yr Uned Adfywio Gwledig a Rheolwr Cynnyrch Cymru sy'n trafod â'r gwahanol randdeiliaid, yn cefnogi'r Gweithwyr Datblygu Bwyd a'r cyflenwyr ac yn chwarae rhan strategol allweddol o ran datblygu a chynaliadwyedd.
- Sicrhau bod swydd y Gweithwyr Datblygu Bwyd yn canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o gychwyn cydweithfeydd a gweithio yn y gwahanol ardaloedd i ganfod lleoliadau a chyflenwyr addas, sefydlu rhwydweithiau ac asesu'r galw. Er ei bod yn hollbwysig i'r Gweithwyr Datblygu Bwyd fynd allan i helpu i sefydlu Cydweithfeydd newydd, dylai unrhyw gymorth ychwanegol a roddir ar ôl eu sefydlu gael ei ddarparu o bell os oes modd (e.e. trwy'r

rhyngwyd neu ebost neu trwy daflenni gwybodaeth ac ati) neu o hyd braich er mwyn annog annibyniaeth.

- Sicrhau cydnabyddiaeth ehangach i fanteision y cydweithfeydd bwyd cymunedol, y tu hwnt i iechyd a lles. Gall y cydweithfeydd wneud cyfraniad sylweddol at feysydd polisi eraill fel cydlyniant cymunedol, yr economi a busnes, ynghyd â thrafnidiaeth, addysg a'r amgylchedd.
- Sicrhau proffil cwsmeriaidi mwy amrywiol, i gynnwys rhagor o deuluoedd, pobl ifanc ac oedolion sy'n gweithio. Mae angen gwneud gwaith i ddatblygu hyn, i annog a hwyluso'r ffordd i bobl o wahanol gefndiroedd fanteisio ar y rhaglen, er enghraifft trwy sicrhau mwy o ddarpariaeth mewn ysgolion; meithrin cysylltiadau â llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a grwpiau cymunedol presennol; a newid yr oriau agor (h.y. agor mwy gyda'r nos ac ar benwythnosau). Byddai hyd yn

oed yn bosib sefydlu cydweithfeydd bwyd mewn gweithleoedd a'u hyrwyddo trwy raglenni penodol fel Newid am Oes.

- Sicrhau mwy o gydnabyddiaeth i gyfraniad sylweddol gwirfoddolwyr. Gellid pwysleisio hyn, er enghraifft, trwy wobrwyo gwirfoddolwyr, darparu hyfforddiant sy'n cael ei achredu, a meithrin cysylltiadau â rhwydweithiau gwirfoddolwyr eraill, yn lleol a ledled y DU.
- Hwyluso cysylltiad rhwng gwirfoddolwyr mewn gwahanol gydweithfeydd er mwyn rhannu arferion da, cael cyngor ynghylch problemau cyffredin a chefnogi ei gilydd yn gyffredinol. Gellid gwneud hyn trwy gynnal cyfarfodydd anffurfiol i wirfoddolwyr, fforymau ar y we (fel grwpiau Twitter a Facebook) a chael mwy o gylchlythyrau lleol a rhanbarthol.
- Rhoi mwy o help i wirfoddolwyr gyda gwaith hyrwyddo a marchnata er mwyn sicrhau bod y cydweithfeydd yn gallu cynnal niferoedd y cwsmeriaid, y

cyflenwyr a'r gwirfoddolwyr. Mae'n amlwg bod angen mwy o gymorth ymarferol (er enghraifft, defnyddiau) yn ogystal â meithrin a chynnal sgiliau. Er mwyn hyrwyddo cydweithfeydd bwyd cymunedol, mae angen pwysleisio'r manteision sy'n ychwanegol at sicrhau bod ffrwythau a llysiau ar gael yn fwy hwylus, byw yn iach a chost isel. Mae'r manteision eraill yn cynnwys, e.e. cefnogi busnesau lleol, hybu masnach moesol a lleihau milltiroedd bwyd. Gellid trefnu bod help ar gael i wirfoddolwyr mewn rhan benodol o wefan yr Uned Adfywio Gwledig yn ogystal ag yn y llawlyfr i wirfoddolwyr (sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd).

- Ystyried cynllun aelodaeth (di-dâl) i gasglu rhagor o wybodaeth am y sylfaen gwsmeriaid. Gallai hyn, yn ei dro, helpu i ddatblygu rhagor o gydweithfeydd bwyd.
- Trefnu bod rhagor o fathau o gynnyrch ar gael – mae cynlluniau peilot i ddarparu cynnyrch heblaw ffrwythau a llysiau i gwsmeriaid, mewn rhai

mannau, wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r galw yno – ac argymhellir bod y rhain yn parhau.

- Mae angen gwneud tipyn o waith ynglŷn â disgwyliadau cwsmeriaid ac mae angen ystyried y ffordd y caiff rhai bwydydd darfodus eu trafod a'u cadw yng nghanolfannau'r cydweithfeydd.

Awdur: BMG Research
ISBN: 978 0 7504 7616 4